# MATHAU o LYGREDD

Tynnwch linell rhwng y math o lygredd a'i ddiffiniad cywir.

**Math o lygredd**

Gronynnau (PM)

Nitrogen Deuocsid

Llygryddion eraill

**Disgrifiad**

Mae'r rhain yn cynnwys carbon monocsid, sylffwr deuocsid ac osôn ar lefel y ddaear y cyfeirir ato weithiau fel smog. Mae llosgi pren a thanwydd ffosil fel glo ac olew yn achosi'r math hwn o lygredd ac mae osôn ar lefel y ddaear yn cael ei greu gan adwaith ffotocemegol rhwng llygryddion a golau'r haul.

Gall hyn ddigwydd yn naturiol, o baill neu lwch, ond mae'n aml yn cael ei achosi mewn dinasoedd gan losgi tanwydd ffosil. Cyfeirir at hyn weithiau fel huddygl ac mae cerbydau injan diesel yn gyfrannwr mawr o'r math hwn o lygredd aer. Mae'r gronynnau lleiaf yn llai na 0.1 micron mewn diamedr. Mewn cymhariaeth, mae gwallt dynol fel arfer yn mesur 75 micron ar draws.

Mae dros 80% o'r math hwn o lygredd yn y DU yn cael ei achosi gan drafnidiaeth a faniau a cheir diesel yw'r llygrwyr mwyaf. Mae canol dinasoedd yn dioddef lefelau arbennig o uchel o'r math hwn o lygredd. Mae tystiolaeth bod amlygiad i'r nwy hwn yn achos tebygol o asthma mewn plant.